# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 29 Mawrth 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ray Bartley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Jason McLellan, Barry Mellor a Paul Penlington

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwyr Corfforaethol: yr Economi a Thir y Cyhoedd (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (SP), Cyllid, Asedau a Thai (JG), a Gwella Busnes a Moderneiddio; Arbenigwr Recriwtio (AM); y Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## TEYRNGEDAU I GYNGHORWYR

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y tristwch o golli dau aelod gwerthfawr ac uchel eu parch yn ddiweddar, sef y Cynghorwyr Peter Owen (Dyserth) a Richard Davies (Dinbych Isaf). Byddai colled fawr ar ôl y ddau ohonynt a mynegodd yr Arweinydd gydymdeimlad y Cabinet â'u teuluoedd ar yr adeg anodd hon. Safodd yr Aelodau a'r swyddogion mewn tawelwch fel teyrnged iddynt.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Mohammed Mehmet – Prif Weithredwr

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cynghorydd Bobby Feeley – Personol – Eitem 6 ar yr Agenda – Aelod Bwrdd Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## 3 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi cael eu codi.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2016.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2016 fel rhai cywir ac fe’u llofnodwyd gan yr Arweinydd.*

## 5 DIRWYN CYDBWYLLGOR TAITH I BEN

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddirwyn Cydbwyllgor Taith i ben ac i ystyried trefniadau olynu.

Cafodd Cydbwyllgor Taith ei sefydlu gan Awdurdodau Gogledd Cymru yn 2007 i hyrwyddo cydweithredu rhanbarthol ym maes trafnidiaeth. Yn 2014 tynnodd y Gweinidog y trefniadau cyd-drefnu, cynllunio rhanbarthol a monitro cyfalaf oddi ar y consortia trafnidiaeth rhanbarthol. Cynrychiolai’r cyfrifoldebau hyn y rhan fwyaf o waith Taith, felly roedd Bwrdd Taith wedi cytuno y dylid dirwyn y Cydbwyllgor i ben. O ran y trefniadau i’r dyfodol, argymhellwyd bod Fforwm Cynghori ar Drafnidiaeth i gael ei sefydlu o dan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i ddelio ag ymyriadau trafnidiaeth gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad deiliaid portffolio trafnidiaeth. Byddai adroddiad tebyg yn cael ei ystyried gan bob Cabinet yn yr awdurdodau lleol eraill dan sylw.

Cydnabu’r Cabinet fod Taith wedi gweithio’n arbennig o dda i’r rhanbarth, gan ddarparu ffordd deg o flaenoriaethu prosiectau seilwaith yn y Gogledd ac roedd rhywfaint o siom fod rhaid newid. O ran y trefniadau olynu, roedd yr aelodau’n falch o nodi y byddid yn dal i fanteisio ar ymwneud ac arbenigedd deiliaid portffolio trafnidiaeth, gan ddarparu mewnbwn gwerthfawr ynglŷn â materion trafnidiaeth rhanbarthol. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y bwlch o ran seilwaith rhwng y Gogledd a’r De a phwysigrwydd y Fforwm newydd er mwyn gwireddu gwelliannau a fydd o fudd i’r economi, gan danlinellu’r angen i fuddsoddi yn yr A55 yn arbennig.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn cadarnhau penderfyniad Cydbwyllgor Taith i derfynu’i rôl, yn dod i rym o 29 Medi 2015, a*

*(b) yn cefnogi sefydlu Fforwm Cynghori ar Drafnidiaeth o dan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i gynnwys yr Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd fel cynrychiolydd Sir Ddinbych.*

## 6 PRYDLES ARFAETHEDIG TŶ NANT, PRESTATYN I FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ganiatáu prydles i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar delerau sy’n gyson â gosod yr eiddo ar y farchnad agored, yn unol ag argymhelliad Rheolwr Datblygu Masnachol y Cyngor ac asiantaeth allanol y Cyngor.

Symudwyd o Dŷ Nant yn 2014 er mwyn gallu'i osod/werthu fel rhan o gynllun adfywio ehangach ond ychydig o ddiddordeb fu yn yr eiddo ers hynny. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi angen am eiddo newydd i redeg ei wasanaeth gofal sylfaenol yn dilyn penderfyniad gan ddau bractis meddygol i ddod â'u contractau gyda'r Bwrdd i ben. Roedd y Bwrdd Iechyd am brydlesu'r eiddo er mwyn darparu canolfan gofal sylfaenol integredig a chyflenwi gwasanaethau o un adeilad canolog yng nghanol y dref.

Roedd y Cynghorydd Hugh Irving o blaid caniatáu prydles i'r Bwrdd Iechyd. Byddai hynny'n ateb anghenion gofal sylfaenol yr ardal a byddai o fudd i drigolion lleol. Byddai hefyd yn golygu bod adeiladau eraill yn dod yn wag. O ran y goblygiadau ariannol, dywedwyd wrth y Cabinet mai'r Bwrdd Iechyd fyddai'n talu am unrhyw ailwampio mewnol ar yr adeilad. Roedd targed arbedion cyfredol yr adeilad eisoes wedi'i gymryd fel rhan o arbedion effeithlonrwydd blaenorol a byddai'n golygu bod y pwysau presennol yn cael eu bodloni. O ystyried geiriad yr adroddiad ynglŷn â chaniatâd cynllunio tybiedig, eglurwyd bod newid defnydd yn amodol ar y broses gynllunio ffurfiol ond roedd trafodaethau ar sail gwybodaeth gyda chydweithwyr cynllunio yn awgrymu ei bod yn annhebygol y byddent yn argymell gwrthod caniatâd.

***PENDERFYNWYD*** *caniatáu Prydles ar delerau sy'n gyson â gosod yr eiddo ar y farchnad agored, fel yr argymhellwyd gan Reolwr Datblygu Masnachol y Cyngor ac asiantau allanol y Cyngor.*

## 7 Y RHYL YN SYMUD YMLAEN – ADOLYGU A CHAMAU NESAF

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad yn adolygu cynnydd Rhaglen Adfywio Y Rhyl Yn Symud Ymlaen a chynigion o ran gweithgarwch adfywio i'r dyfodol. Roedd y Rhyl wedi bod yn flaenoriaeth adfywio am fwy na deng mlynedd.

Crynhodd y Cynghorydd Evans yn adroddiad a oedd yn rhoi rhywfaint o gyd-destun hanesyddol i ddirywiad trefi glan y môr ac asesiad o weithgarwch adfywio blaenorol yn y Rhyl. Roedd angen ymdrin â gweithgarwch adfywio yn y dyfodol drwy gydweithio. Roedd croeso arbennig i gefnogaeth Llywodraeth Cymru i nifer o gynlluniau, yn fwyaf diweddar prosiect Glan y Môr, ynghyd â phartneriaethau a buddsoddiad sector preifat. Y nod oedd ail-greu'r Rhyl fel lle dymunol i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef, ac er bod hynny'n her enfawr teimlai'r Cynghorydd Evans fod cynllun cydlynol wedi'i sefydlu erbyn hyn ac y gellid gwneud cynnydd drwy'r strategaethau adfywio a'r cynigion ar gyfer cam nesaf y gwaith, yn unol â'r manylion yn yr adroddiad.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a Thir y Cyhoedd sylw at nifer o lwyddiannau a chyfeiriodd at y meysydd hynny lle'r oedd angen gwaith pellach a lle nad oedd y canlyniadau cystal â'r disgwyl. Dywedodd y dylai'r ffocws fod ar weithgareddau sy'n cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r dref, yn denu trigolion sy'n fwy gweithgar yn economaidd i fyw yn y Rhyl, yn mynd i'r afael ag argraffiadau negyddol, ac yn meithrin hyder a thwf busnesau. O ganlyniad roedd tair ffrwd waith wedi'u hawgrymu, yn cynnwys prosiectau sy'n canolbwyntio ar Dwristiaeth ac Ymwelwyr, Canol y Dref a Byw a Gweithio yn y Rhyl. Argymhellwyd bod y Cabinet

yn cymeradwyo'r cynigion hynny ynghyd â threfniadau i reoli a llywodraethu'r rhaglenni.

Croesawai'r Cabinet y cynllun i fynd i'r afael ag adfywio yn y Rhyl a'r cynigion i ddenu pobl yn ôl i'r dref ar draws y tair ffrwd waith. Y gobaith oedd gallu efelychu llwyddiant gwreiddiol yr Heulfan gyda chyfres o atyniadau gan na fyddai unrhyw welliannau i'r ddarpariaeth fanwerthu yn ddigon ynddynt eu hunain i ddenu pobl yn ôl i'r Rhyl. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i gynhyrchu incwm cynaliadwy ynghyd â buddsoddi parhaus mewn cyfleusterau fel bod y ddarpariaeth hamdden wastad yn ffres a chyffrous. Cytunai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol na fyddai darpariaeth fanwerthu yn unig yn cynnal y dref ac ymhelaethodd ar brosiect Glan y Môr a fyddai'n darparu gweithgareddau, digwyddiadau a chyfleusterau ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r dref, gan gyfrannu'n gadarnhaol at yr adfywio. Ymddiheurodd hefyd na chyfeiriwyd at y cynnydd o ran cyflwyno traeth y Rhyl am wobr glan y môr a chytunodd i gylchredeg y wybodaeth honno i'r aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Joan Butterfield fod Aelodau'r Rhyl yn llwyr gefnogi'r Rhyl fel blaenoriaeth adfywio ond mynegodd nifer o bryderon, fel a ganlyn –

- y diffyg mewnbwn gan Aelodau'r Rhyl wrth lunio'r cynllun adfywio a'r ffaith nad ydynt yn rhan o'r byrddau prosiect sy'n goruchwylio cynlluniau penodol
- y diffyg buddsoddi ar gynnal cyfleusterau'r Rhyl, megis y Tŵr Awyr a'r Heulfan, tra buddsoddir mewn cyfleusterau mewn rhannau eraill o'r sir
- pryderon ynglŷn â'r oedi ar ran Grŵp Tai Pennaf (sy'n cynnwys Cymdeithas Tai Clwyd Alyn) rhag gwireddu elfen datblygu tai Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl
- tynnodd sylw at y buddsoddi sylweddol yng Ngorllewin y Rhyl a oedd wedi arwain at ddim effaith, neu effaith fach iawn, ar ganlyniadau, a diffyg buddsoddi mewn ardaloedd eraill
- croesawai'r buddsoddi yn Ysgol Newydd y Rhyl ond nododd na fu unrhyw gynnydd pellach o ran yr Ysgol Ffydd newydd.

Ymatebodd yr Aelodau Arweiniol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i'r materion a godwyd fel a ganlyn –

- cafodd yr adroddiad ei rannu gydag Aelodau'r Rhyl cyn ei gyflwyno i'r Cabinet a byddai unrhyw gynigion adfywio newydd yn cael eu croesawu a'u hystyried
- roedd y strwythur llywodraethu yn dangos rhan Aelodau'r Rhyl ar Grŵp Cyfeirio'r Rhyl a'r Pwyllgorau Archwilio a byddent hefyd yn cael eu cynnwys ar wahanol fyrddau prosiect penodol – roedd aelodaeth y Bwrdd Cyfleusterau Arfordirol a Bwrdd Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl hefyd yn cynnwys Aelodau o'r Rhyl
- soniwyd am y buddsoddi sylweddol yn y Rhyl dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys Harbwr y Foryd, yr Apollo, y Clwb Mêl, Ysgol Newydd y Rhyl, Amddiffynfeydd rhag Llifogydd a Thai, a Datblygiad Glan y Môr a gyhoeddwyd yn ddiweddar
- derbyniwyd nad yw effaith buddsoddiadau penodol a'u canlyniadau bob amser yn glir nac yn hawdd eu mesur
- roedd Grŵp Tai Pennaf yn cael ei alw i sesiwn graffu i drafod pam fod Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl yn cymryd yn hirach na'r disgwyl, gyda golwg ar

gyflymu'r gwaith o godi'r datblygiad tai. Roedd Pennaf yn ymwybodol o farn y Cyngor y dylai'r tai a godir gael eu marchnata i'w gwerthu yn hytrach na'u rhentu
- roedd addysg hefyd yn dyngedfennol i adfywio a byddai Ysgol Newydd y Rhyl yn gweithredu fel catalydd i ddod â phobl i'r dref.

Lleisiodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones bryderon ynglŷn â'r effaith ar fusnesau canol y dref a gofynnodd am wneud rhagor o ran gostwng ardrethi busnes a ffioedd parcio ceir i geisio cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref. Croesawai'r Cynghorydd Barry Mellor lawer o gynnwys yr adroddiad ond tynnodd sylw at yr angen am amserlenni priodol i ddatblygiadau neilltuol a rhaglenni cynnal a chadw ar gyfer cyfleusterau. Argymhellodd hefyd fod y Cyngor yn codi tai ar gyfer ei stoc dai ei hun, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar adfywio economaidd.

Darparwyd yr ymatebion canlynol –

- mae gostyngiad dros dro ar hyn o bryd i ardrethi busnes yn Stryd Fawr y Rhyl am fod yr amodau masnachu yn araf a'r tebygolrwydd yw y byddai'r ailbrisio ar werthoedd ardrethu sydd i'w gynnal yn fuan yn arwain at ostyngiad i adlewyrchu gwerthoedd rhentu is, gyda hynny'n arwain at ardrethi busnes is i fusnesau yng nghanol y dref, o 2017 gobeithio
- roedd y Cyngor Tref yn Rhuthun wedi sybsideiddio taliadau meysydd parcio yn y gorffennol ond nid oedd unrhyw dystiolaeth fod hynny wedi arwain at fwy o ymwelwyr yn y dref. Serch hynny, byddai modd i Gyngor Tref y Rhyl sybsideiddio taliadau parcio fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ym Mhrestatyn drwy'r Cyngor Tref. Roedd angen i'r Cyngor Sir allu mantoli ei gyllideb barcio, a dyna pam y codwyd y taliadau parcio ar draws y sir yn ddiweddar
- dywedwyd ei bod yn bosibl y câi eiddo a thir eu prynu i'w hailddatblygu'n dai cymdeithasol mewn rhannau o'r Rhyl er mwyn ychwanegu at stoc dai'r Cyngor, a
- chyfeiriwyd at y problemau a etifeddwyd oddi wrth Hamdden Clwyd Cyfyngedig a'r sicrwydd a roddwyd ynglŷn â'r asesu parhaus ar gyfleusterau hamdden arfordirol y Cyngor.

Pwysleisiodd yr Arweinydd ymrwymiad y Cyngor i adfywio'r Rhyl gan ychwanegu bod y cynigion adfywio yn darparu cyfleoedd enfawr i'r Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a)* *yn nodi'r cynnydd a wnaed ar brosiectau adfywio yn y Rhyl;*

*(b)* *yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer cam nesaf y gweithgarwch adfywio yn y Rhyl sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad (gyda darluniau yn Atodiad 2 ato), ac yn cytuno y dylid eu defnyddio fel sail i'r blaenoriaethau ar gyfer unrhyw arian adfywio a allai ddod ar gael, ac*

*(c)* *yn cymeradwyo trefniadau rheoli a llywodraethu'r rhaglen a nodwyd yn yr adroddiad ac sydd wedi'u darlunio yn Atodiad 3 at yr adroddiad.*

Yn y fan hon (11.20 a.m.) cafwyd toriad byr yn y cyfarfod (lluniaeth ac ati).

## 8 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 3 – 2015/16

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf hyd at ddiwedd chwarter 3 o 2015/16 am gyflawni Cynllun Corfforaethol 2012 – 17.

Roedd yr adroddiad perfformiad yn crynhoi'r sefyllfa o ran pob canlyniad ac yn dadansoddi unrhyw eithriadau allweddol. Cafodd pob canlyniad ei werthuso'n dderbyniol neu'n well. Esboniwyd beth oedd wrth wraidd statws pob dangosydd ac ymhelaethwyd ymhellach yn y cyfarfod ar faterion allweddol ynghyd â'r hyn a gyflawnwyd yn chwarter 3. Roedd y Pwyllgor Archwilio – Perfformiad wedi ystyried yr adroddiad ac wedi galw materion yn ymwneud â'r dangosyddion addysg a thai i mewn i graffu ymhellach arnynt. Roedd Bwrdd Gwella'r Cynllun Corfforaethol wedi cael ei sefydlu i fonitro sut y cyflawnir y Cynllun dros ddeunaw mis olaf y weinyddiaeth.

Wrth ystyried yr adroddiad trafododd yr aelodau'r canlynol –

- Dangosydd JHLAS03i – nodwyd bod y dangosydd hwn yn wyrdd wrth fesur y blynyddoedd o gyflenwad tir tai a bod hynny'n anghyson â'r sgôr goch yn Adroddiad Blynyddol y CDLl a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'i dull cyfrifyddu hi. Roedd y swyddogion yn amau bod y casgliadau hyn sy'n groes i'w gilydd i'w priodoli i ddefnyddio mesur gwahanol ond cytunasant i ymchwilio i'r mater ymhellach ac adrodd yn ôl
- CES111a – roedd lleihau'r ddibyniaeth ar lety symudol wedi cael ei ddyfarnu'n las (wedi'i gwblhau) am fod polisi wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r mater hwnnw; nodwyd bod nifer y lleoedd ysgol a ddarparwyd drwy ystafelloedd dosbarth symudol wedi cael ei ddyfarnu'n felyn o ran ysgolion cynradd ac oren i'r rhai uwchradd
- roedd y perfformiad yn erbyn y dangosydd i ddisgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg wedi cynyddu o 55% yn 2013-14 i 56% yn 2014-15. Fodd bynnag, golygai'r gwelliant mewn rhannau eraill o Gymru fod perfformiad Sir Ddinbych wedi gostwng islaw'r canolrif a châi ei ystyried yn flaenoriaeth wella. Dywedodd y Cynghorydd Eryl Williams fod y dangosydd yn annheg oherwydd y gwahaniaeth enfawr yn yr arian sy'n cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i'w wario ar wella ysgolion a chodi safonau ar draws y rhanbarth
- THS012: % y prif ffyrdd (A) a'r ffyrdd eraill (B) ac (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol – cydnabuwyd y gallai'r dangosydd gwyrdd fod yn gamarweiniol ond mewn gwirionedd roedd yn ganlyniad cadarnhaol gyda'r lefel sydd mewn cyflwr gwael wedi gostwng drwyddi draw. Nid oedd yn bosibl newid y geiriad i'w wneud yn gliriach gan fod y dangosydd yn cael ei osod yn genedlaethol. Soniodd y Cynghorydd David Smith am y ffigurau diweddaraf sydd ar gael a oedd yn dangos gwelliant yng nghyflwr prif ffyrdd a ffyrdd eraill er 2012. Cydnabuwyd ei bod yn her cynnal ffyrdd y sir yn barhaus
- roedd y dangosydd coch o ran argaeledd band eang yn bryder difrifol a oedd wedi'i alw i mewn i graffu arno a byddai'r oedi'n cael ei drafod yn uniongyrchol gyda BT

- Arolwg Trigolion 2015 – defnyddiwyd yr ymatebion diweddaraf fel sail i ganlyniadau'r cynllun ac roedd yn siom, os nad yn syndod, nodi bod lefelau boddhad cwsmeriaid yn dal yn goch ac nad oedd yr adroddiad cadarnhaol at ei gilydd yn cael ei adlewyrchu yn ymatebion trigolion
- Trefi a Chymunedau Bywiog – roedd gweithgareddau'n ymwneud â'r Clwb Mêl a Queen Street, y Rhyl wedi cael eu dyfarnu'n wyrdd gan fod gwaith y Cyngor yn y cyswllt hwnnw yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen – gofynnodd y Cabinet am fwy o eglurder yn adroddiadau'r dyfodol o ran pa elfen perfformiad o'r prosiect oedd yn cael ei mesur
- roedd y gyfradd digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn uchel oherwydd y ffordd y caiff digwyddiadau eu cofnodi yn y sir ac nid oedd y ffigurau wedi cynyddu yn sgil cyflwyno taliadau gwastraff gwyrdd
- roedd nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn dibynnu i raddau helaeth ar faint a hyfywdra datblygiadau tai.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi fod yr adroddiad yn gadarnhaol at ei gilydd a bod y pwyllgorau archwilio wedi galw nifer o faterion i mewn er mwyn eu harchwilio ymhellach.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol 2012 – 17 fel yr oedd y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 3 o 2015/16.*

## 9 POLISÏAU CYFLOGAETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith yr adroddiad yn argymell cymeradwyo wyth polisi cyflogaeth a oedd wedi cael eu datblygu/diwygio. Manylai'r adroddiad ar bedwar polisi newydd a thynnai sylw at newidiadau arfaethedig yn y polisïau presennol a'r rhesymau amdanynt. Cyfeiriwyd at y broses ymgynghori ac er nad oedd cworwm yn y Cyd Bwyllgor Ymgynghorol Lleol pan ystyriwyd y polisïau, roedd yr undebau a'r aelodau'n hapus i argymell eu mabwysiadu.

Wrth ystyried y Polisi Cyfle Cyfartal mewn Cyflogaeth, gofynnodd y Cynghorydd Huw Jones pa effaith a gâi Safonau newydd y Gymraeg. Cadarnhaodd y swyddogion nad yw'r Gymraeg yn nodwedd warchodedig yn ôl diffiniad y ddeddfwriaeth cydraddoldeb a bod yna bolisïau eraill yn ymwneud â iaith, yn cynnwys cynllun y Cyngor ei hun ar y Gymraeg. Ceisiwyd sicrwydd hefyd ynglŷn ag arddel y polisïau'n gyson ar draws yr awdurdod a dywedodd y swyddogion fod y polisïau'n cael eu hyrwyddo'n ddygn mewn gwahanol gyfarfodydd rheoli a'u bod ar gael ar y fewnrwyd ac yn cael eu hyrwyddo arni. Cafodd y dogfennau eu hailfformatio fel eu bod yn hawdd eu defnyddio a chynhwyswyd templedau er cysondeb.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn mabwysiadu'r polisïau cyflogaeth fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.*

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni. Darparodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- roedd tanwariant net o £0.585m yn cael ei ddarogan i gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- roedd 91% o'r arbedion y cytunwyd arnynt wedi'u cyflawni hyd yma (targed £7.3m) ac roedd yr amcanestyniadau'n dangos y câi mwyafrif yr arbedion sy'n weddill eu gwireddu erbyn 2016/17 fan hwyraf – eglurwyd y câi'r 9% o arbedion sy'n weddill yn 2015/16 eu cyflawni mewn termau arian ond na châi'r arbediad gwirioneddol ei gyflawni efallai tan 2016/17
- tynnwyd sylw at achosion allweddol lle'r oedd y ffigurau'n wahanol i'r gyllideb neu dargedau arbedion, a hynny mewn perthynas â meysydd gwasanaeth unigol, a
- chafwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (yn cynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Gofynnwyd hefyd i'r Cabinet gymeradwyo'r tanwariant o £677k yn y Cyllidebau PFI a Chyllido Cyfalaf er mwyn sefydlu cronfa wrth gefn i helpu i liniaru effeithiau gostyngiadau ariannu yn y dyfodol. Eglurwyd y câi'r elfen hon ei hystyried yn ystod gweithdai cyllideb yr aelodau. Gan fod y Setliad Terfynol wedi golygu £6k ychwanegol o gyllid, argymhellwyd ychwanegu'r swm hwn at £480k y Gronfa Gorfforaethol Wrth Gefn ar gyfer 2016/17 i helpu i wrthbwyso unrhyw oedi cyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd.

Yn ystod y drafodaeth rhoddwyd sicrwydd fod penderfyniadau ynglŷn â lleoliadau uchel eu cost yn y Gwasanaethau Plant yn cael eu seilio ar angen, nid ar ystyriaethau ariannol, a bod cronfa ar gyfer lleoliadau arbenigol wedi cael ei chreu i dalu'r costau hynny. O ran prosiect Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras, gofynnodd y Cynghorydd Bobby Feeley am i adroddiadau gael eu haileirio yn y dyfodol i egluro ymhellach y byddai dwy ysgol ar safle Glasdir.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn nodi'r cyllidebau a osodwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni;*

*(b) yn cymeradwyo defnyddio'r tanwariant o £677k yn y Cyllidebau PFI ac Ariannu Cyfalaf i sefydlu cronfa wrth gefn i helpu i liniaru effeithiau gostyngiadau yn yr arian a geir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol fel rhan o strategaeth y gyllideb ar gyfer 2017/18, ac*

*(c) yn nodi'r diweddariad ar y Setliad Terfynol ac yn cymeradwyo'r defnydd a argymhellwyd i'r £6k ychwanegol o arian gan Lywodraeth Cymru.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried, a nododd yr aelodau y canlynol –

- y câi’r Polisi Codi Tâl am Ofal Cymdeithasol i Oedolion ei ystyried ym mis Ebrill
- y dylid dileu’r cyfeiriad at Bolisi Codi Tâl am Ofal Cymdeithasol i Oedolion ym mis Mai a rhoi Dyfodol Gwasanaethau Darparwyr Oedolion yn ei le, ac
- y gallai’r eitem am hen Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych, a oedd wedi’i rhaglennu ar gyfer mis Mai gael ei gohirio gan ei bod yn amodol ar adroddiad gan y Prisiwr Dosbarth.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet*.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 p.m.